

**Pennaeth:** Mrs Eirian Owain B.Add.  
**Head:** Mrs Eirian Owain B.Ed.

# Ysgol Bro Dyfrdwy

Cynwyd  
Corwen  
Sir Ddinbych  
LL21 0LG

☎ 01490 412500



[ysgol.brodyfrdwy@sirddinbych.gov.uk](mailto:ysgol.brodyfrdwy@sirddinbych.gov.uk)



Tachwedd 9fed, 2018

Annwyl Rieni,

Gobeithio bod pawb wedi mwynhau y seibiant dros yr hanner tymor. Wrth edrych yn ôl dros y cylchlythrau, trydariat a'r holl gyfathrebu cynhwysfawr dros yr wyth wythnos diwaethaf, mae'n glir pa mor brysur mae'r disgyblion wedi bod, faint o gyfleoedd a roddwyd iddynt ac ystyried hefyd faint o'r cyfleoedd hynny sy'n mynd uwchlaw a thu hwnt i'r rhai a gynhwysir yn y cwricwlwm arferol. Rwyf mor ddiolchgar i'r staff am ddarparu'r holl gyfleoedd gwych hyn, gan roi profiad addysgol cyfoethog i'r disgyblion ym Mro Dyfrdwy. Yn naturiol yr hanner tymor yma bydd prysurdeb y Nadolig i'w weld wrth i'r paratoadau ar gyfer y sioeau Nadolig gychwyn!

Yn gywir

Eirian Owain

---

**FFARWELIO** - Heddiw ryden ni'n ffarwelio efo Anti Diana sy'n gadael ei swydd yn Ysgol Bro Dyfrdwy. Mae hi wedi bod yn ffrind triw i'r plant a'r staff yn ystod y 12 mlynedd diwaethaf. Bydd colled aruthrol ar ei hôl hi. Dymunwn pob hwyl a llwyddiant iddi yn ei swydd newydd. Cofiwch, dewch yn ôl i'n gweld ni o bryd i'w gilydd!

**PROSIECT DAWNS** - Bydd Blwyddyn 3 a 4 yn rhan o brosiect ddawns efo Cwmni New Dance am ddeuddydd yr wythnos nesaf sef ar y dydd Llun, Tachwedd 12fed a'r dydd Mawrth, Tachwedd 13eg. Mae'n bwysig fod pob un disgybl Blwyddyn 3 a 4 yn cofio dod a'u dillad ymarfer corff i'r ysgol yn ystod y cyfnod yma sef crys t gwyn plaen a phâr o siorts du. Mae'n bosib y bydd y plant yn perfformio i chi'r rhieni ar ddiwedd y dydd Mawrth. Ond cewch gadarnhad o hyn ddydd Llun.

**NOSON DVD** - Mae'r Gymdeithas Rhieni ac Athrawon yn trefnu Noson gwyllo DVD ar ôl ysgol nos Fawrth nesaf sef Tachwedd 13eg i blant Blwyddyn 1-6. Bydd 'hot dog' a diod ar



**Pennaeth:** Mrs Eirian Owain B.Add.  
**Head:** Mrs Eirian Owain B.Ed.

# Ysgol Bro Dyfrdwy

Cynwyd  
Corwen  
Sir Ddinbych  
LL21 0LG

☎ 01490 412500



[ysgol.brodyfrdwy@sirddinbych.gov.uk](mailto:ysgol.brodyfrdwy@sirddinbych.gov.uk)



gael i'r plant. Gofynnwn yn garedig i chi dalu £2.50 a dychwelyd y ffurflen erbyn dydd Llun fel ein bod yn gallu archebu a darparu digon o fwyd ar eu cyfer.

**RASUS TRAWSGWLAD** - Cynhelir rasmus trawsgwlad i ysgolion Edeyrnion a Llangollen yma prynhawn dydd Mercher nesaf sef Tachwedd 14eg.

**BRECHIADAU RHAG Y FFLIW** - Cofiwch bydd y plant yn derbyn eu brechiad rhag y ffliw yn yr ysgol bore dydd Gwener nesaf Tachwedd 16eg.

**BARDD PLANT CYMRU** - Bydd Bardd Plant Cymru yn ymweld â'r ysgol bore Iau, Tachwedd 22ain i gynnal gweithdy barddoni efo disgyblion Blwyddyn 5 a 6.

**CASTELL Y WAUN** - Bydd Blwyddyn 1 a 2 yn ymweld â Chastell y Waun ar ddydd Mawrth, Tachwedd 27ain. Mwy o fanylion i ddilyn.

**GWEITHDY DRAMA** - Caiff Blwyddyn 3 a 4 fwynhau diwrnod o weithgareddau drama yng nghwmni Siwan Llynor ar ddydd Mawrth Tachwedd 27ain.

**PANTOMEIM** - Bydd Blwyddyn 3,4,5 a 6 yn mynd i weld y pantomeim Branwen yn Theatr y Stiwt, Rhosllanerchrugog ar bawn dydd Iau, Tachwedd 29ain. Mwy o fanylion i ddilyn.

## SIOEAU NADOLIG

- **Cyfnod Sylfaen** - pawns a nos Fercher Rhagfyr 5ed
- **CA2** - pawns a nos Fercher, Rhagfyr 12fed

**CWMNI'R FRANWEN** - Bydd Cwmni'r Franwen yn cyflwyno'r sioe Twrw Dan a Dicw i blant y Cyfnod Sylfaen ar fore dydd Iau, Rhagfyr 6ed.

**FFAIR NADOLIG** ar nos Iau, Rhagfyr 6ed am 6.00 y h yn y Neuadd.

**DILLAD EU HUNAIN** - Gwahodddwn y plant i wisgo dillad eu hunain ddydd Gwener, Tachwedd 30ain a chyfrannu siocled tuag at y ffair Nadolig am wneud hynny! Diolch



**Pennaeth:** Mrs Eirian Owain B.Add.  
**Head:** Mrs Eirian Owain B.Ed.

☎ 01490 412500



[ysgol.brodyfrdwy@sirddinbych.gov.uk](mailto:ysgol.brodyfrdwy@sirddinbych.gov.uk)

# Ysgol Bro Dyfrdwy



Cynwyd  
Corwen  
Sir Ddinbych  
LL21 0LG

**TEMPEST** - Dydd Llun nesaf sef Tachwedd 12fed fydd y dyddiad olaf i ni dderbyn archebion ffotograffau Tempest.